

## **Pwyllgor Diwylliant - CC-18-01(p.6)**

**Dyddiad:** 21 Tachwedd 2001

**Amser:** 9.00am-12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol

### **CYLCH GORCHWYL DRAFFT AR GYFER YR ADOLYGIAD PUM MLYNEDD O GOMISIWN BRENHINOL HENEBION CYMRU**

#### **Diben**

1. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, gwahoddir y Pwyllgor i roi ei sylwadau ar y cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr Adolygiad Pum Mlynedd o'r Comisiwn Henebion.

#### **Argymhelliad**

2. Gwahoddir yr aelodau i roi eu sylwadau ar y cylch gorchwyl drafft amgaaedig.

#### **Amseru**

3. Ar ôl ystyried sylwadau aelodau'r Pwyllgor, mae Edwina a finnau yn gobeithio cyhoeddi yn fuan y byddwn yn cychwyn ar yr adolygiad.

#### **Cefndir**

4. Ar 10 Mai 2000, yn y Cyfarfod Llawn, cyhoeddodd Edwina Hart y fframwaith cyffredinol ar gyfer adolygu (bob 5 mlynedd) y Cyrff gweithredol Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Adolygwyd y Comisiwn Brenhinol ddiwethaf ym 1994.

5. Bydd yr adolygiad hwn yn nwylo Martin Rolph, aelod o staff y Cynulliad sy'n gweithio i'r Grp Cyllid ar hyn o bryd. Dechreuodd weithio ar adolygiad pum mlynedd Cadw yn ddiweddar. Bydd hwn yn adolygiad ar wahân, er y ceir peth tir cyffredin amlwg rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. Ar ôl ystyried eich sylwadau ar y cylch gorchwyl drafft amgaaedig, bwriadaf gyhoeddi yn fuan y byddwn yn cychwyn yn ffurfiol ar yr adolygiad hwn.

#### **Cydymffurfio**

6. Mae gan y Cynulliad y grym i adolygu'r Comisiwn Brenhinol fel ag a awgrymir. Bydd yr

adolygydd yn dilyn canllawiau'r Cynulliad ar gyfer cynnal adolygiadau pum mlynedd o Gyrff gweithredol Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, a gyhoeddodd Edwina Hart ar yr un pryd â'i datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Mawrth 2000. Bydd rhai o fanylion yr adolygiad yn adlewyrchu statws arbennig y Comisiwn Brenhinol, ond yr un fydd y prif egwyddorion.

## **Themâu Trawsbynciol**

7. Cyfeirir at y rhain yn benodol yn y cylch gorchwyl drafft.

## **Goblygiadau Ariannol**

8. Bydd cost cael un o Swyddogion y Cynulliad i gynnal yr adolygiad hwn yn dod o'r gyllideb costau gweinyddol, a chan fod yr adolygydd yn aelod o staff, ac eisoes yn cynnal adolygiad arall, bydd y gost yn gymharol isel ar gyfer y math hwn o weithgaredd. Bydd yr adroddiad drafft yn cyfeirio at gostau'r adolygiad.

## **Gwaith y Pwyllgor Pwnc**

9. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cylch gorchwyl drafft, ac i wneud sylwadau arno cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol yn ffurfiol.

**JENNY RANDERSON**



## **CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

### **YR ADOLYGIAD PUM MLYNEDD O GOMISIWN BRENHINOL HENEBION CYMRU**

#### **CYLCH GORCHWYL**

##### **1. CYFLWYNIAD**

1.1 Cynhelir yr Adolygiad Pum Mlynedd o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yng nghydestun y Canllawiau a gyhoeddodd y Cynulliad ar gyfer cynnal Adolygiadau Pum Mlynedd o Gyrrff gweithredol Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys hunan-asesu gan y Comisiwn Brenhinol, trafod â'i uwch swyddogion a cheisio barn y prif gyfranddeiliaid gan gynnwys cwsmeriaid, yr holl staff a'u hundebau llafur a phartneriaid eraill, gan gynnwys y cyhoedd. Mae'r ymarfer hwn yn cynnig y cyfle, uwchlaw popeth, i gynnig barn am yr hyn y mae'r Comisiwn Brenhinol wedi'i gyflawni yn y gorffennol, ei weithgareddau presennol a'i ddyfodol.

1.2 Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi'r prif gwestiynau y bydd yn rhaid i'r Adolygiad eu hateb. Mae'r Cylch Gorchwyl hefyd yn nodi materion sy'n benodol i'r Comisiwn Brenhinol.

1.3 Cynhelir yr Adolygiad mewn dwy ran: Yr Adolygiad Strategol a'r Adolygiad o Lywodraethu Corfforaethol.

##### **2. YR ADOLYGIAD STRATEGOL**

2.1 Cynhelir yr Adolygiad Strategol yng nghydestun cynllun strategol y Cynulliad, y Cytundeb Partneriaeth, Cynllun i Gymru 2001 (drafft) a'r dogfennau polisi cysylltiedig.

**Cam 1 Y Cyd-destun Strategol y mae'r Comisiwn Brenhinol yn gweithredu**

**o'i fewn**

**2.2 Yng ngoleuni dyletswyddau a swyddogaethau'r Comisiwn Brenhinol ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, a oes angen holl swyddogaethau'r Comisiwn Brenhinol bellach ac os oes, ai'r fframwaith trefniadol presennol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r swyddogaethau hynny?**

a. Pa fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli swyddogaethau'r Comisiwn Brenhinol o ran deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth Ewropeaidd a dogfennau fframwaith ffurfiol?

b. A oes angen y Comisiwn Brenhinol bellach, ac am ba hyd?

c. A oes angen Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i gyflawni'r swyddogaethau hyn – a fyddai ffyrdd eraill o gyflawni'r swyddogaethau yn debygol o fod yn fwy effeithiol?

d. A oes lle i gyfuno swyddogaethau y Comisiwn Brenhinol â gwaith cyrff eraill sy'n gweithio mewn meysydd tebyg neu gysylltiedig?

**Cam 2: Effeithiolrwydd strategol**

**2.3 A ddylid gwneud unrhyw welliannau i'r ffordd y cyflawnir**

**swyddogaethau y Comisiwn Brenhinol, gan roi ystyriaeth i werthoedd ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, a'r ffordd y mae'r berthynas rhyngddo â'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio?**

a. Beth fu prif lwyddiannau strategol y Comisiwn Brenhinol ers ei gychwyn, a yw wedi bodloni ei amcanion, sut mae wedi perfformio yn erbyn ei dargedau, sut mae ei berfformiad yn cymharu â pherfformiad cyrff tebyg eraill yn y maes, a oes angen mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â pherfformiad?

b. Pa mor effeithiol yw dulliau cynllunio corfforaethol y Comisiwn Brenhinol ar gyfer datblygu cyfeiriad strategol clir, pennu targedau a blaenoriaethau? Wrth fynd i'r afael ag ystod lawn ei gyfrifoldebau, pa mor effeithiol ydyw wrth gyfateb yr adnoddau y mae'n eu rhoi i mewn â'r amcanion a'r targedau y mae'n eu gosod?

c. A yw strwythur trefniadol y Comisiwn Brenhinol yn addas ar gyfer ei ddiben? A yw strwythur y sefydliad ac aelodaeth y Cyngor yn ei

alluogi i gydnabod anghenion rhanbarthol yn llawn?

d. A oes cyd-ddealltwriaeth effeithiol o ba rôl y mae aelodau'r Cyngor a'r uwch-reolwyr yn ei chwarae wrth bennu amcanion corfforaethol a monitro'r ffordd y cânt eu gweithredu?

e. A yw'r staff yn gyffredinol yn deall yr amcanion corfforaethol ac yn teimlo eu bod yn berchen ar yr amcanion hynny?

f. I ba raddau y mae amcanion a pholisïau'r Comisiwn Brenhinol a'r ffordd y mae'n cynnal ei fusnes yn cyd-daro ag amcanion a gwerthoedd y Cynulliad a'r themâu sy'n llywio'i waith (datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, cyfle cyfartal, gweithredu'n strategol, gweithio mewn partneriaeth a bod yn gynhwysol)? Beth ellid ei wneud i sefydlu cysylltiadau mwy clòs?

g. A oes gan y Comisiwn Brenhinol berthnasau adeiladol gyda'i bartneriaid allweddol o ran polisi, cynllunio a gweithredu? Sut y gellid cryfhau'r perthnasau hyn?

h. A yw'r Comisiwn Brenhinol yn ymateb yn ddigonol i'w bartneriaid a'i gwsmeriaid? A yw'n ennyn eu hyder fel corff y gallant wneud busnes ag ef, ac a oes ffyrdd o gryfhau'r berthynas?

i. A yw'r Comisiwn Brenhinol yn sefydliad digon agored i'r cyhoedd, ac a yw'n hyrwyddo ei ddibenion a'i wasanaethau'n effeithiol?

## **2.4 A oes angen gwella'r berthynas rhwng y Comisiwn Brenhinol a'r Cynulliad?**

a. A yw'r Comisiwn Brenhinol yn gallu cynghori'r Cynulliad yn effeithiol ar ei bolisi ar amgylcheddau hanesyddol, ac a yw'n gallu cynghori'n effeithiol ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'w waith?

b. A yw'r trefniadau adrodd rhwng y Comisiwn Brenhinol a'r Cynulliad Cenedlaethol yn darparu fframwaith digonol?

c. Oes angen gwahanol ryddid a hyblygrwydd ar y Comisiwn Brenhinol i wella'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau, ac os hynny, sut gellid ei gyflawni heb iddo fod yn llai atebol yn gyffredinol i'r Cynulliad?

### **3. ADOLYGIAD O LYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

**A yw'r Comisiwn Brenhinol yn rheoli ei gyllid yn effeithiol ac yn unol â gofynion rheoleidd-dra, uniondeb a gwerth am arian, a gofynion y Memorandwm Ariannol a'r Datganiad Rheoli? Beth y mae'r Comisiwn Brenhinol wedi ei wneud i weithredu'n fwy effeithiol? Yng ngoleuni'r uchod, pa newidiadau y dylid eu gwneud i'w ddogfennau rheoli?**